COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 13eg MEDI 2000 AM 10.30 YN NHŶ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Presennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 8fed Awst 2000

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar rai mân newidiadau.

2. Materion yn codi.

2.1 Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd a oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi dod i law ynglŷn ag agweddau o'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol a oedd yn berthnasol i waith y Comisiwn. Atebodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi archebu lle i fynychu seminar arweiniad ar y ddeddfwriaeth.

3. Argymhelliad o arolwg o'r ffiniau rhwng Bwrdeistrefi Sirol Casnewydd a Thor-faen.

3.1 Trafododd y Comisiwn eu hymweliad maes â'r ardal a'r casgliad oedd bod sail i gynnal arolwg gan y byddai yn amlwg yn fwy effeithiol a hwylus i berchennog y tir a'r trigolion cyfagos gael ymdrin ag un awdurdod yn hytrach na dau. Er bod Cynghorau Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Thor-faen wedi nodi nad oeddynt yn dymuno cael arolwg o'r ffiniau, nodwyd, fodd bynnag, fod perchennog y tir wedi codi nifer o ddadleuon cryf dros uno'r tir o fewn un awdurdod.

3.2 **Cytunwyd** i barhau gydag arolwg o'r ffin.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn llythyr oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych yn nodi eu bod yn parhau gyda'u cais am Arolwg Barnwrol.

4.2 Dywedodd y Cadeirydd bod cyngor a roddwyd i'r Comisiwn gan eu hymgynghorydd cyfreithiol wedi ei gwneud yn eglur mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol ymdrin ag ef oedd Arolwg Barnwrol a bod gan y Comisiwn ddyletswydd i barhau gyda'u trefniadaeth arolygu. Nodwyd, fodd bynnag, y

byddai'n ofynnol i'r Comisiwn wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gyfarwyddiadau diwygiedig gan y gallai oedi oherwydd yr Arolwg Barnwrol olygu na fyddai'r Comisiwn yn gallu cyflawni'r arolwg erbyn y dyddiad cau a gyfarwyddwyd.

4.3 Roedd teimlad y byddai ansicrwydd yr Arolwg Barnwrol yn ei gwneud yn anodd i'r Comisiwn barhau gyda'u harolwg o'r ffiniau ar hyn o bryd. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol i'w hysbysu nad oeddent yn meddwl ei bod yn addas iddynt barhau â'u harolwg ar hyn o bryd ac i wneud cais am benderfyniad eglur ynghylch sut y dylai'r Comisiwn fwrw ymlaen. Byddai angen nodi yn y llythyr fod angen ateb buan i'r mater hwn os yw'r Comisiwn i gyrraedd dyddiad cau yr arolwg. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn aros am ateb oddi wrth y Prif Ysgrifennydd cyn symud ymhellach gyda'r arolwg ffiniau. Roedd hyn yn cynnwys unrhyw weithgaredd pellach yn ymwneud â'r gwaith o ddod o hyd i ymgynghorwyr addas a chyflogi aelod ychwanegol o staff gan y Comisiwn.

4.4 Gan fod Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cynnal cyfarfod gyda'r Comisiwn i drafod cam cyntaf yr arolwg ffiniau yng ngoleuni eu cais am Arolwg Barnwrol, roedd teimlad ei bod yn anaddas i gynnal y cyfarfod tebyg a oedd wedi ei drefnu gyda Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. **Cytunwyd** i ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ganslo'r cyfarfod ac esbonio'r rheswm dros benderfyniad y Comisiwn i wneud hynny.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Caerfyrddin a Phenfro yn ardal Clunderwen a Gorllewin Llandysilio - trefniadau ar gyfer cyfarfod.

5.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod y cyfarfod cyhoeddus gyda Chynghorau Cymuned Clunderwen a Gorllewin Llandysilio wedi cael ei drefnu ar gyfer 17 Hydref 2000 am 6.30yh. Gwnaed trefniadau i'r Comisiynwyr gwrdd cyn y cyfarfod.

5.2 **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ymgymryd ag unrhyw gyfieithu y byddai ei angen yn y cyfarfod.

6. Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg - Adroddiad Argymhellion Drafft.

6.1 **Cytunwyd** ar yr adroddiad Argymhellion Drafft yn amodol ar rai mân newidiadau. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi.

7. Arolwg Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

7.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cytunwyd ar rai newidiadau i bwyntiau ffeithiol yn yr adroddiad drafft rhyngddo ef a Mr Cuthbert. Cafodd y Comisiwn wahoddiad i gyflwyno sylwadau ar y drafft ac ar ôl ystyried y papur, gofynnodd y Comisiwn i'r Ysgrifennydd ddarparu ymateb yn cynnwys y

pwyntiau a godwyd ar gyfer eu dosbarthu i Gomisiynwyr er mwyn eu cytuno cyn eu cyflwyno i'r Cynulliad.

8. Trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol Agored ar 10fed Hydref 2000.

8.1 Cyflwynwyd papur yn rhoi gwybodaeth am y rhai oedd i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol. Adroddodd yr Ysgrifennydd bod y trefniadau'n mynd rhagddynt yn foddhaol.

9. Ystadegau'r Wefan.

9.1 Cyflwynodd Mr Halsall adroddiad oedd yn dangos fod gwefan y Comisiwn wedi derbyn nifer cynyddol o ymweliadau.

10. Unrhyw Fater Arall.

10.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5ed Mehefin 2000.

10.2 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod mapiwr y Comisiwn, Mr Phil Hall, yn gadael y Comisiwn ar 15fed Medi 2000. Estynnodd y Cadeirydd werthfawrogiad y Comisiwn i Mr Hall am ei waith a dymuniadau gorau ar gyfer ei ddyfodol.

10.3 Nodwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Comisiwn fel a ganlyn:

26 Hydref 2000 am 10.30yb
21 Tachwedd 2000 am 10.30yb
20 Rhagfyr 2000 am 10.30yb